Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref: RE/576/21

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

28 Gorffennaf 2021

Annwyl Peredur,

Adolygiad Annibynnol o'r Dreth Trafodiadau Tir

Diolch ichi am eich ymateb i gwmpas arfaethedig yr adolygiad annibynnol o'r Dreth Trafodiadau Tir.

Rwy'n gwerthfawrogi bod y Pwyllgor wedi rhoi o'i amser i ystyried hyn. Isod rwyf wedi nodi fy ymateb i bob un o awgrymiadau'r Pwyllgor o ran meysydd ychwanegol i'w cynnwys yng nghwmpas yr adolygiad.

1. effeithiolrwydd y rheol gwrthweithio osgoi gyffredinol

Bydd cwmpas yr adolygiad yn cynnwys ystyried rôl y rheol gwrthweithio osgoi gyffredinol hyd yn hyn. Dylid cydnabod bod y rheol yn cyflawni dau bwrpas, sef darparu ffordd o roi sylw i weithgarwch penodol sy'n berthnasol i'r rheol, a hefyd gweithredu fel dull o atal math o weithgarwch. Y bwriad yw ystyried a yw'r newidiadau, a wnaed ar yr adeg pan gafodd ei gweithredu, yn briodol ar gyfer Cymru o gymharu â'r rheolau gwrthweithio osgoi cyfatebol sydd ar waith mewn rhannau eraill o'r DU, yn enwedig o ran treth dir y dreth stamp.

Pe bai o gymorth i'r Pwyllgor, byddai Awdurdod Cyllid Cymru yn fodlon darparu gwybodaeth friffio dechnegol ar y rheol a'i dull gweithredu mewn perthynas ag osgoi trethi yn ehangach.

2. Effaith absenoldeb rhyddhad prynwyr tro cyntaf

Bydd yr adolygiad yn ystyried sut mae gwahanol fathau o ryddhad yng Nghymru yn cael eu gweithredu, o gymharu â rhannau eraill o'r DU, gan gynnwys mathau o ryddhad ar gyfer prynwyr tro cyntaf sydd ar gael yn y dreth dir y dreth stamp a'r Dreth Trafodiadau Tir ac Adeiladau.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

3. Effaith y Dreth Trafodiadau Tir ar brisiau eiddo yng Nghymru

Mae amrywiaeth eang o ffactorau sy'n dylanwadu ar newidiadau i brisiau eiddo. Maent yn cynnwys cyflwr yr economi a chyflogaeth, mynediad at forgeisi a'u cost; ac, ar hyn o bryd, effeithiau'r pandemig. Hefyd mae amrywiaeth o faterion mwy lleol, megis cael gwared ar dollau ar Bont Hafren. O ganlyniad, rwyf o'r farn y byddai'n hynod anodd gweld beth fyddai effeithiau newidiadau unigol i'r Ddeddf ar brisiau eiddo. Hefyd, byddai'n ehangu cwmpas yr adolygiad y tu hwnt i effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth a'r newidiadau penodol a wnaed pan gafodd Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 ei chyflwyno.

Pe bai'r Pwyllgor yn penderfynu comisiynu ei ymchwil ei hun i effaith cyfraddau a throthwyon y Dreth Trafodiadau Tir ar brisiau eiddo, byddwn wrth gwrs yn hapus i'w gynorthwyo.

Byddaf yn pennu cwmpas terfynol yr adolygiad ar ôl ystyried eich awgrymiadau, ac rwy'n gobeithio bod mewn sefyllfa i allu dechrau'r broses o gaffael adolygydd annibynnol maes o law.

Yn gywir,



Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government